# CYNGOR CYMUNED *LLANWINIO* COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio ar nos Fawrth 18fed o Orffennaf 2017 am 8.00yn yn Neuadd Gymuned Llanwinio.

**PRESENNOL:** Cyng J Phillips, W Evans, D Lewis, H James, G Evans, R Gallie a K Bowen (clerc)

**YMDDIHEURIADAU:** Cyng P Walton

Hefyd yn bresennol oedd Ms L Agoust a Mr D Crawford-Cummings

Cyn dechrau'r cyfarfod fe wnaeth y Cadeirydd groesawu Cyng R Gallie fel Cynghorwr Cymuned newydd. Fe wnaeth Cyng Gallie arwyddo y Datganiad o Dderbyn Swydd.

**COFNODION:** Darllenwyd cofnodion cyfarfod 16eg o Fai a derbyniwyd hwy yn gywir.

**DATGANIADAU O DDIDDORDEB:** Dim

**MATERION YN CODI:**

Roedd Cleddau Insurance wedi methu rhoi gwell pris na Aon UK am yswiriant cyngor. Cyngor i dderbyn cynnig Aon UK am adnewyddu.

Mae amcanbris am lanhau ac ail-lythrennu y gofgolofn rhyfel ym Mynwent Llanwinio i'w ddisgwyl yn fuan.

**RHEOLAU SEFYDLOG:**

Penderfynodd y cynghorwyr i edrych a chymeradwyo'r rheolau sefydlog yn y cyfarfod nesaf.

**COFRESTRU TIR:**

Penderfynwyd rhoddi cynigiad am gofrestru y tir a adnabwyd fel Rhos (Comin) Llanwinio ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

**GOHEBIAETH:**

Derbyniwyd gwahoddiad oddi wrth y Comisiwn dros Gymru ar Ddemocratiaeth Lleol a Ffiniau i fynychu cyflwyniad ar yr adolygiad o'r trefniadau etholaethol am ardal Sir Gaerfyrddin ar 20fed o Fedi 2017 yn Neuadd y Sir, Caerfyrddin. Cytunodd Cyng J Phillips i fynychu.

Derbyniwyd copi o gylchlythyr Angela Burns, AS dros Orllewin Caerfyrddin a De Sir benfro.

**DERBYNIADAU:**

| | |
|---|---|
| Mr & Mrs H James – rhent tir cyngor | £309.32 |
| Mrs J King – rhent tir cyngor | £175.75 |
| HMRC – adaliad TAW | £242.82 |
| GVO Wind Turbine No.39 (Gilfach) – lles cymunedol | £2571.27 |

**BILIAU:**

| | |
|---|---|
| SSE – trydan neuadd gymunedol 26/1/17-26/4/17 | £546.93 |
| AON – yswiriant cyngor 1/6/17 – 31/5/18 | £631.42 |
| Treuliau'r clerc 1/4/16 – 31/3/17 | £126.21 |

**ADRODDIAD ARIANNOL:**

Cyfrif Trysorydd - £2161.26

Cyfrif Busnes - £6092.01

**CYNLLUNIO**: Dim

**PROSIECT HAWLIAU FFORDDLLANWINIO:**

Cafodd y Cyngor olwg o ohebiaeth Ms Agoust a ddanfonwyd at CSC

Fe wnaeth CSC gadarnhau fod yr holl lwybrau a flaenoraethwyd gan y Cyngor Cymuned a'r grŵp cerdded i gyd wedi cael eu archwilio ac fe fydd gwaith yn cael eu wneud arnynt yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol.

Mae'r llwybrau a effeithiwyd gan y torri coed diweddar a'r ail blannu yn Allt Cilsant yn y broses o gael eu hadfer.

Hysbysodd Mr Crawford-Cummings y Cyngor fod arian ar gael o Senedd Cymru ar gyfer llwybrau/phontydd. Clerc i ymchwilio.

**U.F.A.**

Clerc i hysbysu CSC o'r problemau isod:

Mae'r gist halen uwchben Swn-y- Sien wedi ei ddifrodi.

Mae eisiau torri n'ol y canghennau sy'n gorhongian rhwng y troeon uchaf ac isaf ar yr heol o Maesygrove i Gwmbach.

Mae eisiau glanhau yr afon naill ochr i'r bont yn Nghwmbach.

Mae un o drigolion Cwmfelin Mynach wedi dangos diddordeb mewn prynu hen goffor y Cyngor. Cytunodd Cyng W Evans i ddechrau trafodaethau.

Gan fod yna ddim rhagor o fusnes fe wnaeth y Gadair ddiolch i bawb oedd wedi mynychu a datganodd fod y cyfarfod ar gau.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ar nos Fawrth 19eg o Fedi am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.**